**LGH-08-02 (min)**

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 8 Mai 2002

**Amser:** 2.00pm hyd 5.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Peter Black (Dirprwy Weinidog) | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gŵyr |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| John Bader | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Sue Wood | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Joanna Jordan | Yr Uned dros Ostwng Troseddu |
| Yr Uwcharolygydd Pat Daley | Heddlu Trafnidiaeth Prydain |
| Simon Goss | Cynllun Gwarchod Bondiau Caerdydd |
| Melanie Williams | Cynllun Gwarchod Bondiau Caerdydd |
| Yr Athro David Adamson | Ymgynghorydd Arbenigol |

**Ysgrifenyddiaeth:**

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc |

**Sylwadau Agoriadol**

Croesawodd y Cadeirydd Colin Robbins a'i gydweithwyr o Brosiect Canolfan Adnoddau Mount yn Sir Benfro i'r gynulleidfa.  Roedd rhai o aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â'r prosiect cyn hyn fel rhan o'i adolygiad polisi ar adfywio cymunedol.  Erbyn hyn roedd cynllun Canolfan Adnoddau Mount yn ddeuddeg mis oed a diolchodd y Cadeirydd i Mr Robbins am ddarparu copïau o'r adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Cadeirydd fod penderfyniad wedi'i wneud i ohirio'r cyfarfod arfaethedig ar 12 Mehefin yng Ngogledd Cymru, am na fyddai'r Gweinidog ar gael am resymau

anorfod.  Cadarnhaodd yr aelodau eu bod am fwrw ymlaen â chyfarfod yng Ngogledd Cymru ond gan fod dyddiadur y Gweinidog yn llawn ar y diwrnodau a oedd wedi'u trefnu ar gyfer y pwyllgor am weddill y tymor hwn, byddai'n rhaid gohirio hyn tan dymor yr Hydref.

Dywedodd y Gweinidog fod amserlen y Pwyllgor yn cynnwys slot ar gyfer Pwyllgor ychwanegol ar 30ain Mai.  Gan nad oedd unrhyw fusnes ffurfiol wedi'i gynllunio, gofynnodd i'r aelodau ystyried a fyddai unrhyw fudd mewn atgyfodi'r ymweliad a awgrymwyd â'r prosiectau tai yn y Bettws a Brackla y diwrnod hwnnw.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi ac aelodau eraill o'r Pwyllgor wedi mynychu lansiad y Model Tai Cymunedol Cydfuddiannol gan y Gweinidog yn gynharach.

**Eitem 1:   Ymddiheuriadau a Dirprwyon**

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb na dirprwyon.

**Eitem 2:   Datgan Buddiannau**

2.1 Gwnaed y datganiadau canlynol:

Peter Black: Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

William Graham: Aelod o Gyngor Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd.

Pauline Jarman: Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Dai Lloyd: Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

Janet Ryder: Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

**Eitem 3:   Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad.  Dywedodd fod pryder wedi cael ei fynegi yn ystod ei chyfarfod rheolaidd â Phenaethiaid Heddlu holl heddluoedd Cymru ynglŷn â'r cynnydd mawr yn y cyffuriau Dosbarth A sydd ar gael, yn enwedig yn Ne Cymru.  Ychwanegodd ei phryderon hi at y broblem hon ac awgrymodd y dylai'r mater gael ei drafod mewn mwy o fanylder yn y cyfarfod nesaf pan fydd David A'Herne, Cyfarwyddwr Cymru dros Ostwng Troseddu, yn gwneud cyflwyniad i'r Pwyllgor.  Cytunodd hefyd i roi adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar ei chyfarfodydd gyda'r Prif Gwnstabliaid.

3.2  Yn ystod y drafodaeth, cododd yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r negeseuon gwahanol a oedd yn dod i law oddi wrth y Prif Gwnstabliaid ynglŷn â'r ffordd orau o ddelio â'r broblem.  Awgrymwyd y byddai yna fudd o wahodd Prif Gwnstabliaid i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

- Roedd angen strategaeth ar Gymru, a honno'n strategaeth gydag amrywiadau rhanbarthol, ar gyfer delio â'r broblem. Credai'r aelodau y gallai'r Pwyllgor a'r Cynulliad cyfan wneud cyfraniad o bwys tuag at lunio strategaeth ar y cyd â'r heddluoedd.

- Gwnaed y pwynt fod y problemau sy'n ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau yn effeithio ar bob agwedd o gymdeithas ac na ddylid cyfyngu'r drafodaeth ar y mater yn y Cynulliad i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Cydnabyddid y byddai'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn dymuno cael mewnbwn ac y byddai cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor ar y mater yn fuddiol.

3.3 Rhoddodd y Gweinidog yr ymateb canlynol a chynigiodd gymryd y camau a ganlyn:

- Roedd yn falch fod penaethiaid yr heddlu wedi codi'r mater pwysig hwn gyda hi. Ychwanegodd fod angen i'r Pwyllgor fod yn ofalus iawn gyda'r agenda hon, gan nad oedd hwn yn gyfrifoldeb sydd wedi'i ddatganoli. Nododd geisiadau'r aelodau am i benaethiaid yr heddlu annerch y Pwyllgor a theimlai mai'r ffordd briodol i symud ymlaen fyddai i David A'Herne annerch y Pwyllgor yn gyntaf a byddai hi'n ystyried y posibilrwydd o wahodd penaethiaid yr heddlu i gyfarfod anffurfiol. Cytunodd y Gweinidog i hysbysu'r Pwyllgor am hynt y dull strategol o wrthsefyll y twf yn y defnydd o gyffuriau dosbarth A y cytunwyd arno ar y cyd gan Brif Gwnstabliaid Cymru.

3.4 Dywedodd y Cadeirydd fod negeseuon cryf wedi'u derbyn oddi wrth yr aelodau ac mai'r consensws oedd y dylid dechrau gyda chyflwyniad gan David A'Herne, Cyfarwyddwr Cymru dros Ostwng Troseddu. Cytunwyd hefyd y dylid gwahodd aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymuno â'r Pwyllgor pan fydd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

**Eitem 4: Cynllun Gwarchod Bondiau - Adolygiad o'i flwyddyn gyntaf ar waith LGH-08-02 (p.1)**

4.1 Dywedodd y Cadeirydd fod Simon Goss a Melanie Williams o Gynllun Gwarchod Bondiau Caerdydd wedi cael eu gwahodd i fod yn bresennol tra'r oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried a'u bod wedi cytuno i ateb unrhyw gwestiynau y byddai'r aelodau yn eu codi.

4.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cytunai'r aelodau ei fod yn gynllun da gyda llawer o fanteision i landlordiaid a thenantiaid fel ei gilydd.

- Nodwyd y penderfyniad i ganolbwyntio ar y boblogaeth myfyrwyr i ddechrau. Holodd yr aelodau sut y bwriedid datblygu diddordeb ymhlith pobl ar wahân i fyfyrwyr ac ymestyn y cynllun ledled Cymru?

- Codwyd hefyd y mater o sut yr oedd cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i'r cynllun?

4.3 Mewn ymateb, dywedodd Simon Goss:

- Penderfynwyd canolbwyntio ar y boblogaeth myfyrwyr wrth sefydlu'r cynllun gan ei bod yn hawdd cyrraedd myfyrwyr a bod y cynllun wedi cael ei gefnogi gan gyrff myfyrwyr. Y bwriad oedd ehangu'r cynllun i gynnwys pob sector o lety preifat ar rent.

- Cafodd y cynllun ei hysbysebu yn y wasg leol a rhanbarthol. Roedd deunydd cyhoeddusrwydd ar gael (yn y Gymraeg a'r Saesneg) ond nid oedd ar gael eto mewn ieithoedd eraill. Roedd gan y cynllun wefan hefyd ac roedd modd llwytho taflenni a ffurflenni cais i lawr oddi arni.

4.4 Dywedodd y Gweinidog fod yna rinweddau i'r cynllun a chytunodd i gynhyrchu adroddiad cynnydd pellach ar gyfer y pwyllgor ym mis Tachwedd. Cytunodd y Gweinidog hefyd i gylchredeg i'r aelodau fanylion yr astudiaeth a gynhaliwyd yn Lloegr i'r cynllun blaendal tenantiaeth, cyn gynted ag y byddant ar gael. Dywedodd ei bod o blaid ehangu cwmpas y cynllun a chredai y gellid ymchwilio i'r posibilrwydd o osod amodau ar grantiau adnewyddu a gymeradwyir.

**Eitem 6: Rhoi Cymunedau'n Gyntaf - Adroddiad ar y camau a gymerwyd hyd yn hyn LGH-08-02 (p2)**

6.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur hwn gan ddweud bod cynnydd da wedi'i wneud i symud y rhaglen yn ei blaen ers iddi gyhoeddi'r rhestr gyntaf o gymunedau cymwys ym Mehefin 2001. Hyd yma, roedd £10.3m wedi cael ei ddyrannu o dan y Gyllideb Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Ychwanegodd fod strategaeth fonitro a gwerthuso yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, ynghyd â strategaeth i hyrwyddo'r rhaglen. Gofynnodd am farn y Pwyllgor ar y materion yr oedd angen rhoi sylw iddynt er mwyn datblygu'r rhaglen.

6.2. Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Dywedodd yr aelodau mai ynglŷn â'r elfen gyllido yr oeddent hwy'n derbyn y rhan fwyaf o ymholiadau a'u bod yn teimlo fod honno'n rhy fiwrocrataidd;

- Codwyd cwestiynau gan yr aelodau ynglŷn â sut y mae Awdurdodau Lleol yn tynnu'r holl ffynonellau cyllido ynghyd a pha un a ddylai swyddogion deimlo bod ganddynt hwy berchenogaeth dros brosiectau unwaith y maent wedi'u nodi.

- Cytunai'r aelodau fod y cynllun yn gwneud gwahaniaeth i gymunedau difreintiedig ledled Cymru ond rhybuddiasant yn erbyn y perygl o greu disgwyliadau na ellid eu bodloni gyda grantiau o'r maint sydd ar gael.

.

- Mynegodd rhai aelodau siom nad oedd arian a neilltuwyd i'r rhaglen yn ei blwyddyn waith gyntaf, a oedd heb ei wario, yn cael ei gario trosodd fel y byddai ar gael i'w wario ym mlwyddyn 2.

- Mynegwyd pryder hefyd fod yna, ymysg y mudiadau sy'n cymryd rhan mewn prosiectau rhoi cymunedau'n gyntaf, ymdeimlad cryf o hyd o amddiffyn ffiniau a bod hynny'n llesteirio llwyddiant y cynllun.

6.3 Dywedodd y Gweinidog:

- Y byddai'n rhannu gyda'r pwyllgor ei chynigion maes o law ar fonitro a gwerthuso rhoi cymunedau'n gyntaf.

- Y byddai'n trefnu gyda'r swyddogion i ddarparu taflen wybodaeth ar werth partneriaethau gyda'r rhwydweithiau "Cymru gyfan".

- Cytunodd y Gweinidog i hysbysu'r Pwyllgor am fanylion £2.2m o gyllid i Gastell-nedd/Port Talbot, Gwynedd a Wrecsam.

**Eitem 5: Cyflwyniad gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain**

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr Uwcharolygydd Pat Daley, Pennaeth Ardal Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Ardal y De Orllewin.

5.2 Dywedodd yr Uwcharolygydd Daley wrth y Pwyllgor mai trosolwg o waith Heddlu Trafnidiaeth Prydain, ynghyd â'r mesurau sy'n cael eu cymryd i ostwng troseddu, a geid yn ei gyflwyniad. Derbyniodd yr aelodau gopi o'i sleidiau. Y pwyntiau o bwys oedd:

- Heddlu Trafnidiaeth Prydain – heddlu cenedlaethol y rheilffyrdd

- Caiff Cymru ei phlismona gan 3 ardal:

  - Y De Orllewin (Caerdydd), De Cymru, Rheilffordd Calon Cymru
  - Y Canolbarth (Birmingham) – Rheilffordd y Cambria
  - Y Gogledd Orllewin (Manceinion) – Rheilffordd Gogledd Cymru

- Er 01.01.2002, mae'r Pennaeth Ardal (Ardal y De Orllewin) wedi'i benodi'n bwynt cyswllt dynodedig i unrhyw faterion yn ymwneud â Chymru.

- Roedd lefelau troseddu a throseddau diannod wedi gostwng yng Nghymru yn ystod 2001/02 ond mae troseddau sy'n achosi problemau yn parhau (anhrefn gyhoeddus, difrod troseddol a throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau).

- Pwysleisiwyd nad oedd plismona'r rheilffyrdd yn rhywbeth sy'n digwydd yn gyfan gwbl ar wahân i blismona yn y gymuned leol a bod y maes gwaith/integreiddio hwn yn cynyddu yn enwedig wrth i fwy o gyffuriau gael eu cludo i mewn i Dde Cymru o ardal Bryste a Gwlad yr Haf ar y rheilffyrdd.

- Ar hyn o bryd mae'r ffordd o ymdrin â phlismona yn cynnwys gwaith wedi'i seilio ar gudd-ymchwil a chynlluniau seiliedig yn y gymuned. Mae gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain 55 o swyddogion yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n gweithio'n agos gyda'r lluoedd Cartref ac yn tynnu personél o bob cwr o ranbarth y De Orllewin ar gyfer digwyddiadau yn Stadiwm y Mileniwm, er enghraifft.

5.3 Dywedodd y Gweinidog fod y cysylltiad rhwng Bryste a chyffuriau yn adlais o drafodaeth flaenorol yn y Pwyllgor ac ychwanegodd fod gan yr heddluoedd

cartref a Heddlu Trafnidiaeth Prydain agenda gyffredin i ostwng lefelau delio mewn cyffuriau a fandaliaeth ar y rheilffyrdd.

5.4 Yn ystod y drafodaeth, gwnaeth yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- Roeddent yn falch o ddeall bod gan Gymru bellach gydlynydd canolog a chydnabuont y gwaith gwerthfawr y mae Heddlu Trafnidiaeth Prydain yn ei wneud.

- Mae'r broblem cyffuriau yn effeithio ar bob rhan o gymdeithas a holodd yr aelodau a allai'r rheilffordd ddod yn rhan o'r fenter Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

- Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn erbyn personél trafnidiaeth a fandaliaeth ar y cledrau ar gynnydd.  A oes gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain swyddogion addysg i siarad â phlant ysgol, clybiau ieuenctid?

5.5 Mewn ymateb, dywedodd yr Uwcharolygydd Daley:

- Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydain yn gweithio'n agos gyda Railtrack a'r lluoedd cartref i gynyddu diogelwch mewn gorsafoedd a cheisio gostyngiad yn faint o gyffuriau sy'n dod i mewn i'r ardal ar y trenau.

- Mae yna swyddog cyswllt ysgolion i Ogledd Cymru ac un i Dde Cymru.  Mae'r swyddogion hyn yn cysylltu â'r Awdurdodau Addysg ac yn ymweld ag ysgolion sy'n agos at reilffyrdd i bwysleisio pwysigrwydd tresmasu a fandaliaeth.  Sector arall pwysig i'w addysgu yw ffermwyr y mae eu tir yn ffinio â rheilffyrdd.

5.6 Diolchodd y Cadeirydd i'r Uwcharolygydd Daley am gyflwyniad hynod ddiddorol a llawn gwybodaeth.

**Eitem 7:   Adolygiad polisi o adfywio cymunedol - ystyried materion sy'n dod i'r amlwg LGH-08-02 (p3) Atodiad**

7.1 Dywedodd y Cadeirydd fod y papur hwn wedi cael ei ysgrifennu gan yr Athro Adamson ac mai ei ddiben oedd ceisio barn y Pwyllgor am ystod eang o faterion sydd wedi dod i'r amlwg o'r adolygiad polisi i rôl grwpiau cymunedol o fewn adfywio cymunedol.  Gofynnir am farn y Pwyllgor er mwyn gallu paratoi rhestr o argymhellion amlinellol ar gyfer y cyfarfod nesaf.  Byddai'r adroddiad ar yr adolygiad yn cael ei seilio wedyn ar yr argymhellion hyn.

7.2  Dywedodd yr Athro Adamson nad oedd y papur yn un sy’n rhwymo ond teimlai ei fod yn cynnig sylfaen dda ar gyfer trafod y materion sy'n dod i'r amlwg. Ychwanegodd fod yr adolygiad wedi nodi nifer o faterion craidd sy’n dod i'r amlwg ac roedd wedi ceisio nodi dull gweithredu yr oedd pobl/grwpiau wedi gofyn amdano.

7.3  Trafododd yr aelodau bob opsiwn a chytunwyd ar y canlynol:

1. **Materion Cyffredinol**
   Cytunwyd mai Opsiwn 3 fyddai'n rhoi'r cwmpas ehangaf a'i fod yn cydnabod gwerth partneriaethau.

**Opsiwn 3**

**Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn nodi ac yn cefnogi'r consensws yng Nghymru o blaid amcanion cynhwysiant cymdeithasol Gwell Cymru ac yn cymeradwyo Rhoi Cymunedau'n Gyntaf fel ffordd o'u gwireddu. Mae'n cydnabod gwerth partneriaeth ac ymwneud cymunedol ac yn gofyn i Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol hyrwyddo hynny ym mhob polisi sy'n effeithio ar adfywio cymunedol.**

2. **Cyllido (a) Cymhlethdod y rhaglen gyllido**

Y consensws barn oedd mai Opsiwn 3 fyddai'n rhoi'r hyblygrwydd mwyaf.

**Opsiwn 3**

**Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn rôl cyd-drefnu barhaol i ddatblygu trefn i gysoni ac integreiddio cyllid adfywio cymunedol ledled Cymru. Dylai greu fforwm lle bydd hi, ei Chyrff Noddedig ac asiantaethau cyllido eraill yng Nghymru (ee y Comisiwn Loterïau) yn datblygu cyfundrefn gyllido sydd wedi ei chyd-drefnu o ran ei hamcanion, ei methodoleg a'i hamserlenni**.

**(b) Biwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â chyllido**

Cytunwyd i gyfuno'r 3 opsiwn.

**Opsiwn 1**

**Fod dyddiadau penderfynu i'w pennu'n gynnar a'u cyhoeddi yn nogfennau'r rhaglenni ac y dylid cadw at y dyddiadau onid oes yna reswm da i oedi.**

**Opsiwn 2**

**Fod yr amserau ymateb i gynigion i fod yn rhesymol ac yn y rhan fwyaf o achosion y dylent fod o fewn chwe wythnos i'r dyddiadau cau i gynigion.**

**Opsiwn 3**

**Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu a symleiddio ei holl drefniadau cyllido er mwyn cael gwared â biwrocratiaeth ddianghenraid a'i bod i annog ymarferiadau cyffelyb o fewn asiantaethau cyllido eraill o bwys yng Nghymru.**

**(c) Materion cyllido craidd**

Roedd yna bryder y gallai'r diffyg targed/amserlen ar gyfer penderfyniadau ymestyn y cyfnodau ymgeisio yn sylweddol a chodwyd cwestiynau ynglŷn â rhinweddau'r broses ymgynghori a awgrymwyd yn opsiwn 2. Dywedodd yr Athro Adamson fod ymarferiad ymgynghori yn rhoi'r cyfle i sefydliadau deimlo eu bod o leiaf wedi cyfrannu at yr ymdeimlad o berchenogaeth.

Cytunwyd y dylid dethol opsiwn 2.  Fodd bynnag, roedd hwn i gael ei aralleirio i ymgorffori amserlenni ar gyfer y prosesau ymgynghori.

**Opsiwn 2**

**Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu ffynhonnell gyllido ar frys sy'n ei gwneud yn bosibl darparu cyllid craidd ar gyfer prosiectau a sefydliadau adfywio cymunedol sydd wedi ennill eu plwyf.  Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori'n eang â'r sector i bennu dulliau dyrannu, meini prawf cymhwyso a threfniadau gweinyddol.**

**(d) Graddfa'r Cyllid ar gyfer Adfywio Cymunedol**

Cafodd yr aelodau drafodaeth lawn am yr elfen hon gan eu bod yn anhapus yn gyffredinol â'r gymhariaeth â Lloegr ac yn teimlo, os oedd cymhariaeth i gael ei chynnwys, y dylai hynny fod â'r DU neu Ewrop.  Penderfynwyd dewis opsiwn 2 gyda'r newid isod.

**Opsiwn 2**

**Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru i [gymharu'r cyllid ar gyfer adfywio cymunedol gyda'r lefelau cyllido yn Lloegr ac] adolygu'r gyllideb Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ar y cyfle cynharaf posibl i sicrhau bod y lefelau cyllido yn ddigonol i hyrwyddo rhaglen fyw o adfywio cymunedol yng Nghymru.**

**3. Datblygu Gallu**

Cytunwyd bod pob un o'r 3 opsiwn yn addas ac y caent eu cyfuno felly.

**Opsiwn 1**

**Fod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Cynulliad am ddatblygu strwythurau i gefnogi gallu cymunedol mewn perthynas â'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n gyntaf ac yn argymell ei fod yn achub ar bob cyfle wrth weithredu Cynlluniau Gweithredu Cymunedol a Chynlluniau Datblygu Gallu i sicrhau bod gallu cymunedau yn cael ei ddatblygu a'i gynyddu.**

**Opsiwn 2**

**Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda phob asiantaeth berthnasol i hyrwyddo safonau uchel o ymarfer seiliedig yn y gymuned wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.**

**Opsiwn 3**

**Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal fforwm lle gall yr holl bartneriaid ac asiantaethau perthnasol ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Gallu Adfywio Cymunedol.  Byddai'r Fforwm yn cynnwys CLlLC, CGGC, Rhwydwaith Cefnogi Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, ELWa, yr Awdurdod Datblygu, Colegau AB, Prifysgolion ac ystod o sefydliadau sy'n seiliedig yn y gymuned.**

**4. Prinder staff adfywio cymunedol**

Cytunwyd i dderbyn y naill opsiwn a'r llall.

**Opsiwn 1**

**Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gydag AB, AU, ELWa, y Consortiwm dros Hyfforddiant Adfywio Cymunedol a mudiadau cymunedol i fapio'r ddarpariaeth gyfredol, datblygu cyrsiau byr arloesol a dysgu yn y gweithle er mwyn hyrwyddo ffordd o ddarparu sgiliau ar fyrder i newydd-ddyfodiaid i'r sector.**

**Opsiwn 2**

**Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu cynllun bwrsariaethau yn sylfaen i'r broses hon fel anogaeth i'r rhai sy'n ymuno o'r newydd â'r rhaglenni hyfforddi. Dylai'r cynllun gael ei gynllunio yn y fath fodd fel ei fod yn galluogi gwirfoddolwyr cymunedol i drosglwyddo i ddysgu am dâl yn eu cymunedau eu hunain.**

**5. Perthnasoedd gyda phartneriaid yn y sector gwirfoddol**

Cytunwyd i dderbyn pob un o'r 3 opsiwn.

**Opsiwn 1**

**Fod yr Awdurdod Lleol i gymryd y rôl arwain o fewn gwaith adfywio, gan benderfynu ar fesurau a chamau gweithredu priodol mewn ymgynghoriad â'r gymuned. Caiff ei gyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud hynny.**

**Opsiwn 2**

**Fod yr awdurdod lleol i gyd-drefnu adnoddau, gweithredu fel bancer a rheoli adfywio cymunedol o fewn strwythur partneriaeth.**

**Opsiwn 3**

**Fod awdurdodau lleol i weithredu fel partneriaid cydradd o fewn strwythur partneriaeth. Rhoddir cyllid i'r bartneriaeth ac fe'i rheolir gan benderfyniadau partneriaeth sy'n rhwymo pob un o'r partneriaid.**

**6. Y sector statudol yn darparu adnoddau adfywio cymunedol**

Cytunwyd i ddethol opsiwn 2 ond i gyfnewid grant am gyllid wedi'i neilltuo.

**Opsiwn 2**

**Fod y Pwyllgor yn argymell i Lywodraeth Cynulliad Cymru elfen gyllido ar ffurf grant gan y sector statudol ar gyfer ’darpariaeth gymunedol’ a bod yr elfen honno i ddeillio o elfen gyllido ychwanegol y tu hwnt i'r lefelau cyllido yn y gorffennol.**

**Opsiwn 2**

**Fod y Pwyllgor yn argymell i Lywodraeth Cynulliad Cymru elfen o gyllid wedi'i neilltuo ar gyfer ’darpariaeth gymunedol ’ gan y sector statudol a bod yr elfen honno i ddeillio o elfen gyllido ychwanegol y tu hwnt i'r lefelau cyllido yn y gorffennol.**

**7. Hyrwyddo dull gweithredu rhoi cymunedau'n gyntaf**

Cafwyd trafodaeth lawn ar yr agwedd hon gan fod yr aelodau'n sylweddoli bod angen rhywfaint o gyllid ar grwpiau i ymsefydlu o fewn y gymuned. Cytunwyd i ddethol opsiwn 1 ond i ymgorffori'r ffaith fod angen rhywfaint o adnoddau ymsefydlu ar grwpiau.

**Opsiwn 1**

**Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried ffyrdd o ymestyn yr egwyddorion partneriaeth a chyfranogiad cymunedol y seiliwyd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf arnynt i bob cymuned yng Nghymru.**

**8. Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Cafodd opsiwn 2 ei ddethol.

**Opsiwn 2**

**Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu corff o arbenigedd adfywio cymunedol ‘mewnol’ er mwyn sefydlu perthnasoedd gwaith effeithiol gyda'r sector adfywio cymunedol. Gellid creu hyn drwy recriwtio staff o'r sector adfywio cymunedol, secondiadau, cysgodi swyddi a hyfforddi staff Cynulliad yn fewnol.**

**Hyrwyddo'r arferion gorau**

Cafodd opsiwn 1 ei ddethol.

**Opsiwn 1**

**Fod Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu technegau monitro priodol i hyrwyddo safonau gofynnol ar gyfer pob asiantaeth sy'n ymwneud ag adfywio cymunedol.**

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ebrill LGH-07-02 (min)**

8.1 Nodwyd bod William Graham yn aelod o Gyngor Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd (paragraff 2.1). Fel arall, cytunwyd ar y cofnodion.

**Unrhyw fusnes arall**

9.1 Gofynnodd Peter Law i'r swyddogion ymchwilio i'r rheswm pam fod y TG wedi methu ar gyfer y cyflwyniad.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Mai 2002**

**Crynodeb o'r pwyntiau gweithredu:**

1. David A'Herne i hysbysu'r Pwyllgor ynghlyn â Partneriaethau dros Ostwng Troseddu ar 22 Mai, bydd hyn yn cynnwys amlinelliad o'r strategaeth ar gyfer delio â chyffuriau dosbarth A.

2. Y Gweinidog i hysbysu'r Pwyllgor am fanylion £2.2m o gyllid i Gastell-nedd/Port Talbot, Gwynedd a Wrecsam.

3. Y Gweinidog i rannu gyda'r pwyllgor ei chynigion maes o law ar fonitro a gwerthuso rhoi cymunedau'n gyntaf.

4. Swyddogion i ddrafftio cyhoeddusrwydd ar y Cynllun Blaendal Tenantiaeth. Cyhoeddusrwydd ddrafft i gael eu cyflwyno i'r pwyllgor o fewn chwech mis.

5. Y Cadeirydd i gylchredeg manylion yr astudiaeth a gynhaliwyd yn Lloegr i'r cynllun blaendal tenantiaeth i'r aelodau, cyn gynted ag y byddant ar gael.

6. Y Gweinidog i ddarparu adroddiad diweddaru pellach ar Gynllun Gwarchod Bondiau Caerdydd ym mis Tachwedd.

7. Y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth i'r pwyllgor am yr amodau y gallai awdurdodau lleol eu rhoi ar landlordiaid sy'n cael grantiau adnewyddu.